CYNGOR TREF FFESTINIOG TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**

**☎ 01766 832 398 ✉ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# Rhaglen Pwyllgor Mwynderau

**•20/03/2023 •7.00yh • Siambr y Cyngor ac Ar-lein**

---

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]**

**NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol:

**https://us02web.zoom.us/j/85142014945?pwd=OVJLUENLU0xTeGp2NlNiUEVLaGpxdz09**

**Meeting ID: 851 4201 4945**
**Passcode: 392940**

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 20fed Mawrth 2023 AM 7.00 YR HWYR**

AT GADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG

FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG

**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

| | | |
|---|---|---|
| **1** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| | | |
| **2** | | **Datganiad o Ddiddordeb**<br><br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ar y sgrin a'i hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| | | |
| **3** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br><br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10munud). |
| | | |
| **4** | | **Caffi'r Parc – Cyflwyniad**<br>Derbyn cyflwyniad gan Scott a Rhian Evans ar y datblygiadau yng Nghaffi'r Parc. |
| | | |
| **5** | | **Caeau Chwarae**<br>Arolwg misol 05 Mawrth Chwefror 2023<br>Derbyn crynodeb o archwiliadau misol Helen Jones o'r caeau chwarae, ynghyd â lluniau a ddosbarthwyd ymlaen llaw. |
| | | |
| **6** | | **Llwybrau Cyhoeddus** |
| | | Derbyn adroddiad misol gan John Evans, Cerddwr Llwybrau, wedi ei grynhoi gan y Clerc, ynghyd â lluniau a ddosbarthwyd ymlaen llaw. |
| | | |
| **7** | | **Perllan Gymunedol Pant yr Ynn** |
| | | Diweddariad ar y sefyllfa. |
| | | |
| **8** | | **Biniau Halen** |
| | | Derbyn ebost a anfonwyd at y Cynghorydd Glyn Daniels, gyda gwybodaeth am leoliad y biniau presennol (mapiau ynghlwm), a manylion darparu biniau newydd:<br><br>*"Cyfeiriaf at eich e bost at Steffan Jones mewn perthynas a lleoliadau biniau halen Ffestiniog.* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Rydym wedi bod yn trafod y sefyllfa biniau halen gyda'r clerc newydd yn ddiweddar, ond heb dderbyn cais am lleoliadau'r biniau. Atodaf er eich sylw gynlluniau gyda lleoliadau'r biniau. Fel y gwelwch, rydym wedi rhoi cod unigryw ar pob bin er hwyluso pan fydd trigolion yn cysylltu er mwyn ei llenwi.*<br><br>*Mewn perthynas a ceisiadau am finiau ychwanegol, nid yw'r Adran Priffyrdd yn ariannu rhai ychwanegol i'r Cymunedau, fydd y gost yn cael ei ddosbarthu i'r Cyngor Tref am ei prynu a cost llenwi cyntaf sydd yn oddeutu £362.67 yr un. Fodd bynnag, os bydd cais i ail leoli bin presennol o fewn y gymuned i leoliad gwahanol, nid fydd cost i'r Cyngor Tref. Cyn cytuno i unrhyw fin newydd, byddwn angen asesu'r lleoliad er sicrhau fod lleoliad addas i'w osod ac nid fydd ar y gylchdaith graeanu."* |
| | | |
| **9** | | **Contractwyr, Rhestri Gwaith a Thendrau** |
| | | a. Trafod rhestri gwaith yr amrywiol gontractwyr, a phenderfynu ar adnewyddu contractau, tendrau am waith ac ati. I atgoffa'r aelodau, dyma oedd penderfyniad y Pwyllgor Mwynderau yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Hydref 2022:<br><br>*14. Tendrau*<br>*Caniatau i ddyddiad gorffen y tendrau gael i ymestyn o Hydref 2022 tan Ebrill 2023 (diwedd y flwyddyn ariannol) gario'r tenderau glanhau (llochesi bws a byrddau gwybodaeth), gwagio biniau (caeau chwarae) a swyddog cynnal a chadw tan 1af o Ebrill 2023 a cyhoeddi ceisiadau am tenderau yn mis Tachwedd*<br>*Argymell: Ymestyn dyddiad olaf y tendrau tan Ebrill 2023. Trafod cyhoeddiadau tendrau Ebrill 2023 – Ebrill 2024 yn y Pwyllgor Mwynderau nesaf.*<br><br>b. Nawr bod y Cyngor Tref wedi penderfynu peidio â ffurfioli'r trefniant gyda'r Cyngor Sir mewn perthynas â Chae Tanygrisiau, bydd angen penderfynu beth i'w wneud gyda'r gwaith sy'n digwydd yno nawr. Er enghraifft, a ddylid dweud wrth y contractwyr sy'n gweithio yno'n rheolaidd nawr i gynnwys y Berllan yn eu rhaglenni gwaith yn lle Cae Tangrisiau? A oes gan y Cyngor Tref finiau sbwriel neu gyfarpar arall yno – os felly, a ddylid eu symud ymaith?<br><br>c. Ciosg Ffôn ger y Meirion<br>Y Cyngor Tref sydd bellach yn gyfrifol am hwn, ac mae'r Clerc wedi rhoi arwyddion ynddo yn hysbysu'r cyhoedd o'r ffaith hon. Mae'r ciosg yn fudr iawn – a ddylid ychwanegu hwn i restr lanhau Criccieth Cleaning? |
| | | |
| **10** | | **Cofgolofn Llan Ffestiniog** |
| | | Diweddariad llafar gan y Cynghorydd Marc LLoyd Griffiths ar y sefyllfa ddiweddaraf. |
| **11** | | **Lloches Bws Sgwâr Rawson** |
| | | Cwyn wedi ei derbyn bod gwydr wedi torri yn un o'r llochesi bws yn Sgwâr Rawson, lluniau ynghlwm. |
| **12** | | **Cofrestr Asedau ac Atodlen Yswiriant y Cyngor** |
| | | Yn unol â chais y cynghorwyr, cyflwyno cofrestr Asedau'r Cyngor Tref a'r Atodlen Yswiriant, copïau ynghlwm. |

| | | |
|---|---|---|
| **13** | | **Goleuadau'r Nadolig** |
| | | Trafod goleuadau'r Nadolig ar gyfer 2023. |
| | | |